# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 23ain o Ionawr 2023 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Richard Jones Evans, Geraint Evans, Alan H Jones, Richard C Evans, Geraint Edwards, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan diddordeb: Y Cynghorydd Richard Jones Evans - eitem 11 - Cais Cynllunio - Yn berchen ar y tir dan sylw

3. Derbyn cofnodion 21 Tachwedd 2022:

Nodwyd bod drws yr hysbysfwrdd angen ei atgyweirio. Nodwyd hefyd bod drysau ar y Pafiliwn angen sylw.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Scottish Power | Trydan | 101817 | £179.34 |
| B Gwilym | Stampiau | 101818 | £95.00 |
| Greenbarnes Ltd | Hysbysfwrdd | 101819 | £78.78 |
| Cyngor Gwynedd | Pafiliwn | 101820 | £775.75 |
| B Gwilym | Cyflog | 101821 | £567.52 |
| Cyllid a Thollau EM | Treth | 101822 | £141.80 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.

5. Adolygu gwariant o Ebrill 2022 i Ragfyr 2022:

Darparwyd taenlen Excel yn manylu ar y gwariant, a'r gwariant yn erbyn y gyllideb.

Amcangyfrifwyd bod oddeutu £2,900 o wariant i'w wneud o Ionawr 2023 hyd at Fawrth 2023, gydag oddeutu £20,500 ar ôl ym malansau'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

6. Gosod cyllideb ar gyfer 2023/2024:

| **CYLLIDEB** | **2023/2024** |
|---|---|
| CLERC - CYFLOG | £1,750.00 |
| CLERC - YG | £250.00 |
| CLERC - TEITHIO | £500.00 |
| CLERC - HYFFORDDIANT | £75.00 |
| GWEINYDDOL - DEUNYDD SWYDDFA | £50.00 |
| GWEINYDDOL - POSTIO | £90.00 |
| GWEINYDDOL - LLOGI YSTAFELL | £220.00 |
| GWEINYDDOL - FFÔN | £100.00 |
| GWEINYDDOL - GWEFAN | £100.00 |
| PENTREF - CYNNAL A CHADW | £500.00 |
| PENTREF - CELFI HANESYDDOL | £0.00 |
| PENTREF - BLODAU | £350.00 |
| PENTREF - FEINCIAU | £100.00 |
| PENTREF - LLOCHESI BWS | £1,000.00 |

| | |
|---|---|
| PENTREF - TOILED | £2,000.00 |
| PENTREF - CLWB IEUENCTID | £555.89 |
| PENTREF - ARWYDD CYFLYMDER | £0.00 |
| CAE - TRYDAN | £700.00 |
| CAE - PAFILIWN | £1,500.00 |
| CAE - TORRI GWAIR | £1,000.00 |
| CAE - OFFER CHWARAE NEWYDD | £0.00 |
| CAE - CYNNAL A CHADW OFFER | £600.00 |
| CAE - BINIAU 'SBWRIEL | £120.00 |
| CYFRANIADAU A.137 | £750.00 |
| CORFFORAETHOL - UN LLAIS CYMRU | £130.00 |
| CORFFORAETHOL - YSWIRIANT | £650.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD MEWNOL | £210.00 |
| CORFFORAETHOL - ARCHWILIAD ALLANOL | £285.00 |
| AELODAU - ETHOLIAD | £250.00 |
| AELODAU - HYFFORDDIANT | £200.00 |
| AELODAU - COSTAU TEITHIO | £100.00 |
| AELODAU - LWFANS | £1,350.00 |
| AELODAU - LWFANS GOFALU | £300.00 |
| SEFYLLFA ANARFEROL | £0.00 |
| **CYFANSWM** | **£15,785.89** |

**PENDERFYNIAD:** I osod cyllideb fel yr uchod ar gyfer 2023/2024, sef £15,785.89.
Trafodwyd cyllideb y toiled cyhoeddus a phenderfynwyd y dylid pwyso ar Gyngor Gwynedd i uwchraddio'r toiled.
Y Clerc i anfon manylion am drosglwyddo'r cae chwarae i Elusen Dolgoch at y Cadeirydd.

7. Gosod y bresept ar gyfer 2023/2024:

**PENDERFYNIAD:** I osod y bresept ar gyfer 2023/2024 yn £13,084, sydd yn golygu nad oes codiad yn y dreth cyngor, gyda gweddill o'r arian o'r balansau.

8. Cyngor Gwynedd - cysgodfa bws:

Nodwyd bod arian wedi ei glustnodi yn y gyllideb ac y medr ymgeisio am grantiau.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

9. Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor Tref Tywyn – Afon Fathew / pryder am lifogydd:

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Tref Tywyn yn mynegi cytundeb i gydweithio a Chyngor Cymuned Bryncrug, a gofynnodd y cyngor am ragor o wybodaeth am y pryderon dan sylw.

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan CNC.

**PENDERFYNIAD:** Angen cysylltu â Chyngor Cymuned Llanegryn.
I drafod yr eitem y mis canlynol, sef cynnal cyfarfod gyda Llanegryn a Thywyn.
Nid oedd Cyngor Cymuned Bryncrug yn fodlon gydag ymateb CNC. I anfon gohebiaeth at CNC yn gofyn am restr gwaith wedi ei flaenoriaethu a gofyn pwy sydd yn gyfrifol am gyflawni gwaith sydd wedi ei hadnabod.

10. HMRC - Ymateb i Apêl:

Yr oedd ymateb i apêl wedi ei dderbyn, gydag HMRC yn diddymu'r dirwyon.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

11. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Fferm Cynfal, Bryncrug, LL36 9RB (NP5/55/11M):

Bu i'r Cynghorydd Richard Jones Evans ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu ond ni fu iddo adael y cyfarfod gan na thrafodwyd yr eitem oherwydd bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

12. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Gefynnau (shackles) yn rhydd ar y siglen newydd
-Tyllau cwningod yn y cae
-Angen edrych ar ddrysau'r pafiliwn
-Ysbwriel wedi ei gadw y tu ôl i'r pafiliwn, angen taflu'r pas fwrdd

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

13. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-Wedi derbyn hysbysiad gan Gyngor Gwynedd bod gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud ar y llwybrau cyhoeddus a bydd camfa yn cael ei atgyweirio
-Yn derbyn nifer o gwynion am faw cŵn, wedi cael y warden i lawn i Fryncrug i adolygu'r sefyllfa ac mae bagiau baw ci wedi ei adael gan y swyddog
-Yn parhau i fynychu cyfarfodydd misol gyda'r Bwrdd Iechyd, yn parhau i hysbysebu am feddygon teulu ac yn cyflogi meddygon dros dro
-Y Bwrdd Iechyd wedi methu denu meddygon sydd yn golygu nad yw'n bosib sefydlu hwb hyfforddi a denu meddygon ifanc i'r ardal
-Adroddwyd bod ffens cae chwarae ym Maes Hyfryd wedi ei ddifrodi yn fwriadol, swyddogion yr adran Fwrdeistrefol yn ymwybodol

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
I anfon gwahoddiad at swyddog o'r adran Fwrdeistrefol a swyddog o'r Heddlu i fynychu cyfarfod o'r cyngor i drafod y fandaliaeth ym Maes Hyfryd.

14. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal digwyddiad Iechyd yn Eglwys y Bedyddwyr yn Nhywyn, a bod Mabon ap Gwynfor AS yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Pendre i drafod y sefyllfa iechyd ym Mro Dysynni.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:30pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................